**ATODIAD A**

## CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** |
| **Cynlluniau Asedau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif | 2,987 | 1,303 | 3,854 |
| Cynlluniau Tai | 2,525 | 2,225 | 1,300 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | 1,750 | 1,000 | 0 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 1,493 | 450 | 625 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 896 | 1,145 | 1,640 |
| Cynlluniau Eraill | 4,768 | 2,215 | 1,573 |
| Bidiau Cyfalaf | 500 | 500 | 500 |
| **Cynlluniau Eraill :** | | | |
| Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol i'w ddyrannu | 1,554 | 0 | 0 |
| Grant Cynnal Ffyrdd 2021/22 | 1,323 | 0 | 0 |
| Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor | 0 | 0 | 2,550 |
| Strategaeth Dai - Prynu i Osod | 1,000 | 2,880 | 2,880 |
| Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo : | | | |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC) | 12,051 | 3,327 | 0 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 4,796 | 0 | 0 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 2,550 | 2,550 | 0 |
| Cynlluniau Eiddo | 2,406 | 0 | 0 |
| Cerbydau Adrannol | 1,396 | 3,081 | 0 |
| Eraill | 5,091 | 350 | 0 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **47,086** | **21,026** | **14,922** |

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,077 | 4,077 | 4,077 |
| Benthyca Arall | 6,159 | 2,891 | 2,880 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 15,433 | 5,810 | 2,533 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 227 | 13 | 0 |
| Refeniw Adrannol | 508 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 5,145 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 15,537 | 8,235 | 5,432 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **47,086** | **21,026** | **14,922** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.

6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2021/22 i 2023/24, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.

7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2021/22 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £47,085,960 ar gyfer 2021/22, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.